**LC637**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Gorchymyn Adnabod a Symud Defaid a Geifr (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) (Diwygio) 2003**

Mae hwn yn ymestyn cyfnod gweithredu'r prif Orchymyn o'i ddyddiad dirwyn i ben gwreiddiol o 1 Chwefror 2003 i 1 Ebrill 2003, ac yn diwygio rhai o'r gofynion marcio. Mae hefyd yn cywiro'r anghysondeb rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg yn y prif Orchymyn yr oedd y Pwyllgor yn adrodd arno yn ei adroddiad LC543.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i wall drafftio yn erthygl 9 lle mae'r geiriau a ychwanegwyd yn cyfeirio at y "Gorchymyn Defaid a Geifr 2000". Credir bod hwn, o bosibl, wedi cael ei gopïo ar gam allan o Offeryn Statudol cyfatebol yn Lloegr. Dylai ddweud "Rheoliadau 2000".

Mae'r gwall hwn wedi cael ei gydnabod ar ran y Gweinidog priodol i'w gywiro pan ddaw'r cyfle deddfwriaethol nesaf. Ond dros dro, awgrymwyd y gellir dehongli'r ddarpariaeth dan sylw ar y sail bod y gofynion yn erthyglau 8(4),(5) a 15 o'r Sheep and Goats Identification (England) Order 2000 yn union yr un fath â'r rhai sydd ar waith yng Nghymru.

Cred y Pwyllgor, fodd bynnag, nad yw'n foddhaol ei ddehongli trwy gyfeirio at ddeddfwriaeth Lloegr.  Credir y dylid cywiro'r gwall yn ddi-oed.

Mick Bates AC
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

25 Chwefror 2003